

**Nodiadau o gyfarfod a gafodd ei gynnal gyda Staff a Llywodraethwyr Ysgol
Gynradd Cilfynydd**

Dydd Llun, 19 Tachwedd 2018 am 4:00pm

**Cyfarfod i drafod cynigion y Cyngor i ad-drefnu darpariaeth ysgolion yn ardal
Pontypridd**

Yn bresennol

Esther Thomas (ET), Cyfarwyddwr Gwasanaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Mynediad a Chynhwysiant

Lisa Howell (LH), Uwch Swyddog Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Tim Britton (TB), Uwch Ymgynghorydd Her

Sophie Nicholls (SN), Swyddog Graddedig Carfan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Catrin Edwards (CE), Pennaeth Trawsfurfio Gwasanaethau a Systemau Data

Ellen Williams (EW), Ymgynghorydd Adnoddau Dynol

Richard Evans (RE), Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

25 o aelodau o staff yr ysgol a'r corff llywodraethu

Croesawodd Esther Thomas (ET) bawb i'r cyfarfod ac amlinellodd y cynnig, y rhesymau dros y cynnig, pwrpas y cyfarfod, y broses ymgynghori a'r amserlenni yn ymwneud â'r broses ymgynghori a'r cynigion eu hunain pe baen nhw'n cael eu gweithredu.

Pe bai'r cynigion yn cael eu rhoi ar waith, byddai'r Cyngor am wneud y canlynol:

- Datblygu cyfleusterau addysg ôl-16 oed yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog, Y Beddau, a Choleg y Cymoedd, Nantgarw;
- Creu dwy ysgol 3-16 oed newydd ym Mhontypridd a'r Ddraenen Wen;
- Gwella a chynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy adeiladu ysgol newydd ar safle Ysgol Heol y Celyn - byddai'r adeilad yn uno'r ddarpariaeth Gymraeg yn Ysgol Heol y Celyn ac Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton;
- Diwygio dalgylchoedd Ysgol Uwchradd Pontypridd, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen a dalgylch 6ed dosbarth Ysgol Gyfun Bryncelynnog i fodloni'n well y galw am leoedd ysgol;

Bydd y newidiadau yma yn cael eu cyflawni drwy wneud y canlynol:

- Cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain a throsglwyddo'r ddarpariaeth ôl-16 oed i Ysgol Gyfun Bryncelynnog neu Goleg y Cymoedd, Nantgarw. Ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n dewis addysg Gatholig, bydd darpariaeth chweched dosbarth ar gael yng Ngholeg Dewi Sant, Caerdydd;
- Cau Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gynradd Cilfynydd, a chreu ysgol 'bob oed' 3-16 oed newydd ar safle presennol Ysgol Uwchradd

Pontypridd;

- Cau Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd Heol y Celyn a chreu ysgol 'bob oed' 3-16 oed newydd ar safle Ysgolion Cynradd ac Uwchradd y Ddraenen Wen. Bydd dosbarth arbenigol ADY dynodedig yr awdurdod lleol sydd wedi'i leoli yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen hefyd yn cael ei symud i'r ysgol newydd;
- Cau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ac adeiladu ysgol gynradd Gymraeg newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Heol y Celyn. Bydd y disgyblion hynny sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol newydd a bydd y disgyblion hynny sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn Ysgol Heol y Celyn yn symud i'r ysgol 3-16 oed newydd yn y Ddraenen Wen.

Diwygio'r dalgylchoedd i ddisgyblion 11-16 oed o'r tair ysgol uwchradd a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol drwy wneud y canlynol:

- Trosglwyddo ardal y Graig ym Mhontypridd (sy'n rhan o ddalgylch Ysgol Gynradd Maes-y-coed) i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer Pontypridd (Y Ddraenen Wen ar hyn o bryd)
- Trosglwyddo dalgylch Ysgol Gynradd Coedpenmaen i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer Pontypridd (Y Ddraenen Wen ar hyn o bryd)
- Trosglwyddo dalgylch Ysgol Gynradd Gwauncelyn i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer y Ddraenen Wen (Bryncelynnog ar hyn o bryd)

Y bwriad yw rhoi'r newidiadau ar waith erbyn Medi 2022.

Cyfeiriodd ET at yr wybodaeth fanwl sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori a oedd wedi'i dosbarthu, a'r ffurflen ymateb ynghlwm wrthi, (roedd rhagor o gopïau o'r ddwy yn y cyfarfod) ac at dudalen 5 o'r ddogfen ymgynghori sy'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â sut gall pobl roi sylwadau.

Eglurodd ET y byddai'r cwestiynau / sylwadau / ymatebion yn cael eu cofnodi i'w cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori a fyddai'n cael ei fwydo yn ôl i'r Cabinet yn gynnar ym mis Ionawr 2019, ac adborth gan ddisgyblion yn yr un modd. Pwysleisiodd ET mai cyfnod ymgynghori oedd hwn a phe bai'r cynigion yn mynd rhagddyn nhw i'r cam nesaf (hysbysiad statudol), byddai gwrthwynebiadau yn cael eu derbyn a'u cofnodi ar y cam hwnnw.

Yna, cafodd cwestiynau eu gwahodd.

C. *Ble mae'r ymchwil academiaidd sy'n dangos bod ysgol bob oed yn syniad da mewn gwirionedd? Does dim ymchwil yn yr iaith Saesneg ac alla i ddim gweld unrhyw dystiolaeth o hyn yn digwydd mewn gwledydd eraill. Maen nhw'n glynu wrth y model cynradd/canolradd/uwchradd. Roedd 13 o'r 2300 ysgol yng Nghymru yn ysgolion pob oed ond does dim dystiolaeth gyda ni bod hyn yn syniad da. Dydy penaethiaid yn yr Alban ddim yn cytuno â hyn oherwydd y gall disgyblion iau gael eu bwlio gan ddisgyblion hyn, a phroblemau disgyblion yn eu harddegau fod yn*

broblemau i ddisgyblion iau. Wnewch chi roi'ch sylwadau os gwelwch yn dda?

- A. Mae un ysgol bob oed gyda ni yn Llanhari. Penderfynwyd gwneud hyn am resymau gwahanol oherwydd yr ysgol gyfun newydd ym Maesteg. Mae Ysgol Llanhari erbyn hyn yn tyfu o'r gwaelod. Yn ddiweddar, sefydlon ni dair ysgol 3-16 oed newydd yng Nghwm Rhondda - Y Porth, Nant-gwyn a Thonyrefail. Does dim data arhydol sy'n nodi bod y model yma'n syniad da. Dydyn ni ddim wedi sylwi ar unrhyw broblemau o ran bwlio yn Llanhari. Un o'r elfennau allweddol i ni yw diogelu pobl ifainc ac rydyn ni'n sicrhau bod hyn yn cael ei flaenoriaethu wrth greu ysgolion 3-16 oed. Bydden ni eisiau iddyn nhw ddefnyddio'r un cyfleusterau, e.e. labordai gwyddoniaeth, ardaloedd chwaraeon, ystafelloedd arbenigol ar gyfer Dylunio a Thechnoleg, ond bydden nhw o dan oruchwyliaeth. Does dim tystiolaeth hyd yma fodd bynnag bod hyn yn fodel gwell.

C. Beth yw'r broses ar gyfer staff sydd yma eisoes?

- A. Bydd yr un broses yn cael ei defnyddio ag sydd wedi'i defnyddio yn yr ysgolion blaenorol. Os yw'r cynnig yma'n cael ei gymeradwyo, bydd yna gorff llywodraethu dros dro sy'n cynnwys llywodraethwyr o'r ysgol yma ac o Ysgol Uwchradd Pontypridd. Bydd hwnnw'n cael ei sefydlu tua dwy flynedd cyn i'r ysgol newydd agor. Bydden nhw wedyn yn penodi pennaeth ac yna, gyda'i gilydd, byddai'r corff llywodraethu a'r pennaeth yn creu strwythur staffio. Mae'n anodd rhagweld y strwythur yma'n union ond yn yr ysgolion rydyn ni newydd agor, mae grwpiau blwyddyn ond does dim cyfnod cynradd nac uwchradd. Rydyn ni'n gofyn i'r corff llywodraethu neilltuo'r broses ymgeisio ar gyfer staff presennol, sydd, yn seiliedig ar yr hyn rydyn ni wedi'i wneud eisoes, yn debygol o gynnwys cyfweiliad. Fyddai dim un o'r swyddi yn cael eu hysbysebu yn allanol oni bai na fyddai modd penodi'n fewnol. Elfen arall yw, yn dechnegol, bod pob aelod o staff mewn sefyllfa 'dileu swydd'. Os oes unrhyw staff sy'n dymuno i'w swyddi gael eu dileu neu ymddeol yn gynnar, mae croeso iddyn nhw wneud hynny. Fydden nhw ddim yn rhoi'u hunain drwy broses recriwtio, byddai'u swyddi yn cael eu dileu yn gyntaf.

C. Mae'r ysgol yng nghanol y pentref ac mae modd i bawb ei chyrraedd. Mae'r safle newydd yn eithaf pell o ben blaen y pentref. Mae nifer o broblemau, er enghraifft, diogelwch y ffyrdd. Sut mae'r disgyblion yn mynd i gyrraedd yr ysgol? Galla i ragweld bydd rhesi o draffig yn mynd tuag at yr ysgol.

- A. Rydyn ni'n deall eich pryderon ynglyn â hyn, ac mae diogelwch o'r pwys mwyaf yn y broses yma.
- A. Byddwn ni'n ymgymryd â dadansoddiad llwybrau diogel ar gyfer y prosiect yma, a bydd hyn yn cael ei ariannu gan gyllideb arall. Bydd rhaid i ni greu llwybr diogel ar gyfer y disgyblion.

Q. Dim ond un bont sydd ac mae grisiau ar honna. Mae'n bosibl na fydd modd i rieni sydd â bygis fynd â'u plant (pedwar o bosibl) i'r ysgol yn ddiogel.

A. Rydyn ni eisoes wedi rhoi mesurau arafu traffig sylweddol yn eu lle yn ardaloedd yr ysgolion newydd. Mae modd i ni greu croesfannau a thwmpathau arafu ac ati er mwyn lleihau risg. Er enghraifft, yn y Porth, cyn pen ychydig o wythnosau ar ôl agor yr ysgol, dechreuon ni gael cwynion gan y trigolion. Erbyn hyn, mae'r diwrnod ysgol wedi'i ddarwahanu i sicrhau nad yw'r disgyblion i gyd yn cyrraedd yr ysgol ar yr un pryd. Mae hwn yn drefniant llawer gwell a gwnaed y newidiadau yn sydyn iawn. Mae'n bosibl bydd problemau nad oes modd i ni'u rhagweld, ond byddwn ni'n mynd i'r afael ag unrhyw faterion ar ôl i'r ysgol agor.

C. Mae'n siwr y bydd modd i ni ddysgu o'r ysgolion sydd eisoes wedi'u sefydlu a manteisio ar unrhyw gyngor y gallan nhw eu rhoi.

A. Mae hynny'n wir. Hoffen ni i un o'r penaethiaid ddod i'n nosweithiau agored i ateb rhai o'ch cwestiynau hefyd. Bydd hi'n ddefnyddiol i chi weld sut mae'n gweithio ac i siarad â phobl sy'n delio gyda hyn bob dydd.

C. Mae arweinydd y Cyngor wedi dweud wrtha i na fydd unrhyw arbenigwyr yn cael eu penodi i arolygu hyn. Mae deunydd darllen sy'n dangos bod anawsterau ar gyfer disgyblion sydd ag asthma, problemau calon a hyd yn oed gwybyddiaeth oherwydd agosrwydd yr heol. Pe bydden ni'n adeiladu ysgol ym 1980, fydden ni ddim yn gwybod hyn, ond oherwydd ein bod ni yn gwybod erbyn hyn, efallai na ddysten ni adeiladu ysgol yn y fan honno?

A. Rydyn ni'n mynd i gynnal profion amgylcheddol ar y safle i roi sicrwydd.

Sylw gan aelod o staff neu lywodraethwr - Oes modd i ni gael arbenigwr annibynnol i gynnal yr arolwg yma er mwyn ein sicrhau ni bod hyn yn syniad diogel?

A. Mae ysgol yn y fan honno eisoes.

C. Efallai y dywedan nhw na ddysten ni wneud hwnna. Oes ofn ar y Cyngor ynglyn â chanlyniad posibl yr arolwg hwnnw?

A. Mae'r Cyngor yn monitro ansawdd yr aer yn rheolaidd ac fel sydd wedi'i grybwyll eisoes, mae astudiaeth barhaus yn mynd rhagddi ar yr A470.

C. Ysgol yw hon, ac fe gollon ni lawer o ddisgyblion i Goedpenmaen. Rydyn ni'n symud llawer o blant allan o'u dalgylch - tybed oes cynlluniau i'w gwneud hi'n fwy hyfyw i weithredu ar y safle yma ar gyfer yr 21ain Ganrif, neu oedd y cyllid ar gyfer 3-16 oed yn benodol?

A. Na, doedd e ddim yn benodol ar gyfer 3-16 oed ond os edrychwn ni ar y safle, does braidd dim manau awyr agored i'r disgyblion yma chwarae ynddyn nhw.

A. Mae 149 o ddisgyblion yma a'r disgyblion dosbarth derbyn hyd at flwyddyn 6 sy'n cael y lefel uwch o gyllid.

C. Pe bai arian yn cael ei wario yma, rydw i o'r farn y gallan ni wneud hon yn ysgol sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif. Oedd unrhyw ystyriaeth arall wedi cael ei rhoi i gau unrhyw ysgolion eraill yn y cyffiniau sydd ag

adeiladau sydd mewn cyflwr gwael?

Sylw gan aelod o staff neu lywodraethwr - Os oes rhieni sy'n 50/50 am addysg cyfrwng Cymraeg, maen nhw, yn aml, yn anfon eu plant i Gilfynydd.

- A. Dydy mwyafrif y disgyblion sy'n mynychu Pont Siôn Norton ddim yn byw yng Nghilfynydd.

Sylw gan aelod o staff neu lywodraethwr - Hyd yn oed os oedd 50% ohony'n nhw yn dod yma, fyddai dim gormod gyda ni.

- A. ET - Rydych chi'n cymryd yn ganiataol felly nad yw rheini yn dewis cyfrwng Cymraeg.

Sylw gan aelod o staff neu lywodraethwr - Cynhaliodd ein cymuned gyfarfod ddydd Iau. Dywedodd y mwyafrif llethol o bobl y bydden nhw'n newid i addysg cyfrwng Saesneg er mwyn cerdded i'r ysgol pe bai eu plant yn gorfod dal bws i ysgol cyfrwng Cymraeg.

Sylw gan aelod o staff neu lywodraethwr - Mae clywed bod y plant yn cerdded i'r ysgol yn achosi pryder i mi. Mae ceir yn teithio ar 70 mya er mai 30 mya yw'r terfyn. Os oes camera neu arolygwr yn bresennol, bydd pobl yn arafu a fydd yr ystadegau ddim yn gywir. Cafodd merch ifanc ei hanafu yn ddiweddar - dw i'n siwr y byddech chi'n gwybod am hyn.

- A. Byddai'r holl waith yn cael ei wneud cyn i'r ysgol agor. Yn aml, rydyn ni'n pennu terfyn cyflymder o 20 mya yn ymyl ysgolion ac rydyn ni'n rhoi rhwystrau ffisegol yn eu lle, er enghraifft, twmpathau ac ati.

- C. Beth sy'n digwydd gyda'r nos pan fydd yr A470 ar gau ac mae'r traffig yn dod trwy Gilfynydd? Ambell waith, mae cerbydau enfawr yn dod trwy Gilfynydd. Does dim dargyfeiriad amgen felly dw i ddim yn credu y gallwn ni ddweud y bydd twmpathau ar yr heol yna - rydw i wedi gwneud ymchwil a dydy hyn ddim yn debygol o ddigwydd.**

- A. Dydyn ni ddim yn gwybod beth fydd yr argymhellion ar gyfer y mesurau tawelu traffig. Ar hyn o bryd, does dim plant oedran ysgol gynradd yn croesi'r heol yna bob dydd, felly bydd hynny'n newid a bydd angen i'r garfan priffyrdd sicrhau bod yr heol yn ddiogel ac yn cael ei defnyddio'n briodol.

- Q. Fyddai'r adroddiad traffig gyda chi cyn cyfarfod y Cabinet ynglyn â'r cynnig ym mis Ionawr?**

- A. Na, ond bydd ymgynghoriad cynllunio hefyd a phe na bai'r cynlluniau'n addas, byddai'r cynnig yn methu ar y cam yma oherwydd y broblem yma. Bydd y broses cynllunio yn helpu i lywio hyn. Yn y gorffennol, rydyn ni wedi cynnal nosweithiau agored cynllunio, ac mae rheoli traffig yn berthnasol i'r rhain. Er ei bod hi'n amlwg eu bod nhw'n gysylltiedig, prosesau ar wahân ydyn nhw.

- C. Dywedoch chi y bydd modd i staff ymgeisio am swyddi; ydy hyn yn wir am swyddi Cynorthwyr Cymorth Dysgu a staff amser cinio hefyd?**

A. Ydy, mae hyn yn wir am bob aelod o staff. Strwythur newydd fydd yn ei le, a dydyn ni ddim yn gwybod yn union pa fath o strwythur fydd e.

A. Byddwn ni hefyd yn edrych ar swyddi gwag mewn ysgolion eraill os na fydd rhai yn yr ysgolion newydd yma. Rydyn ni'n ceisio ein gorau glas i sicrhau bod swydd gan bob un ohonoch chi.

Q. Oes modd i chi egluro sut bydd y swyddogaethau arwain yn cael eu neilltuo? Rydw i'n gwybod bod rhaid i'r swyddi am benaethiaid gael eu hysbysebu'n allanol.

A. Mae swyddi ar lefel Pennaeth Cynorthwyol ac yn is na hynny yn cael eu neilltuo ar gyfer staff presennol yn y lle cyntaf, ond mae swyddi Penaeithiaid yn cael eu hysbysebu'n allanol.

Q. Ydy'r penderfyniad i gau Cilfynydd yn uniongyrchol gysylltiedig â disgyblion Ysgol Uwchradd Pontypridd yn gadael ar ôl y chweched dosbarth?

A. Mae'r cynigion yn gysylltiedig, ond rydyn ni'n gwybod bod capasiti sy'n weddill eisoes yn Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gynradd Cilfynydd.

C. Faint o wybodaeth byddwn ni'n ei chael am y cynlluniau cyn y cyfarfod ym mis Ionawr? Fydd y safle wedi'i rannu?

A. Mae'n bosibl bydd angen bloc bach newydd neu estyniad neu ailfodelu. Mae'n ddyddiau cynnar ond rydyn ni eisiau ceisio'ch sicrhau chi y bydd yn gweithio. Rydyn ni wedi newid cynlluniau ysgolion yn dilyn ymgynghori o'r blaen. Rydyn ni wedi gwrandao a dysgu am hyn ac rydyn ni am gael eich sylwadau chithau hefyd.

Sylw aelod o staff neu lywodraethwr - Byddai tua 150 o ddisgyblion oedran cynradd ond bron i 800 o ddisgyblion cyfun.

A. Rydyn ni'n edrych ar lif yr ysgol a gweld ble gallwn ni greu cyfleusterau awyr agored da a sicrhau ei fod yn llifo.

C. Oes enw wedi'i bennu eto?

A. Cadwodd Tonyrefail yr enw ond fe newidiwyd Tonypandy i Nant-gwyn. Y Llywodraethwyr sy'n cyflwyno awgrymiadau a'r Cabinet sy'n gwneud y penderfyniad terfynol.

A. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n gwneud hyn gyda Garth Olwg ac mae penderfyniad wedi cael ei wneud i gadw'r enw.

C. Pe bai rhywun am geisio am swydd ond yn aflwyddiannus yn y cyfweiliad, a fyddai'n cael gadael ar sail 'dileu swydd'?

A. Byddai, wrth gwrs. Mae modd i chi ofyn am ffigyrau a pheidio â mynd i'r cam nesaf, neu gyflwyno cais, ac os ydych chi'n aflwyddiannus, bydd yr opsiwn

'dileu swydd' yn cael ei gynnig i chi.

C. Pa gymorth fydd yn ei le o ran lles staff yn ystod y broses?

- A. Mae gyda ni garfan datblygu pobl a allai weithio gyda'r staff, neu os bydd pobl eisiau siarad am agwedd ar eu lles, gallen ni gysylltu â'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol. Bydd cydweithwyr o Adnoddau Dynol yn dod allan, treulio amser gyda'r staff a mynd i'r afael â phob pryder. Os gwnawn ni hyn yn gywir nawr, bydd e'n senario 'beth os' a rhoi enghreifftiau o ysgolion eraill, ond byddwn ni'n gweithio gyda chi drwy gydol y broses gyfan.

C - Fydd amser i ni bacio popeth o'r hen ysgol?

- A. Bydd. Bydd yr ysgol ar gau ar rai diwrnodau. Fydd y staff ddim yn gwneud y gwaith codi a chario - byddwn ni'n cyflogi cwmni i wneud hyn. Rydyn ni'n gofyn i'r ysgol dacluso a thafu hen bethau ymlaen llaw a rydyn ni'n hurio sgipiau hefyd. Bydd y Garfan Data yn helpu o ran cael gwared ar wybodaeth ac ati.

Sylw gan aelod o staff neu lywodraethwr - Rydyn ni am sicrhau nad yw'r plant yn dioddef a dydyn ni ddim am i les staff effeithio arny'n nhw. Mae ysgol wych gyda ni a dydyn ni ddim eisiau niweidio eu lles nhw oherwydd y broses yma. Rydyn ni'n teimlo fel pe baen ni wedi cael ein dewis oherwydd llefydd sy'n weddill a chyflwr yr adeilad.

- A. Byddwn ni'n gefn i'r staff drwy'r broses a ddylai'r plant ddim cael eu heffeithio o ganlyniad i hyn.

Sylw gan aelod o staff neu lywodraethwr - Mae gyda ni gysylltiadau da ar gyfer gwasanaethau Cynhaeaf a Nadolig a dydw i ddim yn credu y byddech chi'n cael yr un math o gysylltiad â'r gymuned ar ol i'r ysgol symud.

- A. Ar y llaw arall, mae rhagor o gyfleusterau yn Ysgol Uwchradd Pontypridd e.e. yr ardaloedd chwaraeon a'r ystafelloedd TGCh. Dywedodd y plant siaradon ni â nhw yma nad oes dosbarthiadau ar hyn o bryd gyda'r nos ac efallai bydd cyfle gyda chi i wneud hwnna. Rwy'n sylweddoli nad hwn yw canol y gymuned yn ddaearyddol ond dim ond ychydig o funudau mae'n ei gymryd i gerdded i'r Ysgol Uwchradd ac alla i ddim dadlau yn erbyn hwnna ond rheolwyr yr ysgol fydd yn gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd.

- A. Rydyn ni'n ceisio adeiladu mewn mannau cymunedol lle bo'n bosibl ac mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod hyn yn digwydd. Rydyn ni'n creu mynediad arbennig i gyrraedd y man cymunedol a fydd y disgyblion ddim yn defnyddio'r mynediad yma. Er enghraifft, os rhown ni gae 3G mewn ysgol newydd, yna, bydden ni'n disgwyl iddo fod ar gael i'r gymuned.

C. Fe welais i yn y ddogfen bod disgwyl i nifer y disgyblion leihau. Beth yw'r cynlluniau i gynyddu nifer y disgyblion yn y cyfnod cynradd? Y peth mwyaf anodd i ni oedd colli ein dosbarth meithrin. Rydyn ni'n colli plant i gyfleusterau eraill oherwydd hynny.

- A. Efallai bydd modd i chi ddenu pobl i gynnal lleoliad gofal plant ar y safle

newydd.

- A. Mae'r ysgolion newydd yn tueddu denu rhieni oherwydd y cyfleusterau newydd. Rydw i'n deall nad oes modd sicrhau hyn.

C. Rydw i'n deall y cynnig ac mae ein plant yn haeddu'r gorau, ond fyddwn i ddim eisiau i ni symud a bod â nifer llai o ddisgyblion ar y gofrestr. Rydyn ni'n gobeithio y bydd y nifer yn cynyddu ond tybed oes cynllun cyfrinachol ar gyfer hyn?

- A. Rydyn ni'n edrych ar y cyfraddau genedigaethau, sydd yn eithaf cywir, ac mae'r rhain yn llywio'r amcanestyniadau.

C. Ydych chi efallai yn ystyried cau Ysgol Babanod Trallwng a'i symud i Bontypridd?

- A. Dydy hwnna ddim yn rhan o'r cynnig yma.

Sylw aelod o staff neu lywodraethwr - Felly byddai'r babanod yn mynd i Drallwng yn hytrach nag Ysgol Uwchradd Pontypridd. Rydw i'n byw yma, ac yn clywed cymaint o rieni yn dweud y byddan nhw'n eu hanfon i Ysgol Babanod Trallwng yn hytrach nag Ysgol Uwchradd Pontypridd.

- A. Roedd yr un broblem gyda ni yn y Porth a Thonyrefail. Dywedodd y rhieni na fyddan nhw'n anfon eu plant i'r ysgol honno. Agorodd y Pennaeth yr ysgol, gan ddisgwyl gweld 50 o rieni, ond 200 a ddaeth. Mae'r cyfleusterau ychwanegol yn annog cymaint i fynd unwaith eu bod nhw yn eu lle.

- A. Mae ysgolion pob oed yn lleihau problemau pontio i ddisgyblion hefyd.

- A. Rydyn ni wedi gwneud llawer o waith o ran trosglwyddo plant o'r ysgolion cynradd eraill sy'n ymuno â'r ysgolion pob oed i flwyddyn 7 er mwyn ei gwneud hi'n haws i bawb. Gwaith parhaus yw hwn.

C. Gan ein bod ni'n sôn am y dyfodol a nifer y plant, hoffwn i ddweud i'r panel rhynglywodraethol ynglyn â'r newid yn yr hinsawdd (safon aur ar gyfer newid yn yr hinsawdd) ddweud ar 8 Hydref fod gan ddynoliaeth tua degawd i wneud newidiadau i rwystro dynoliaeth rhag diflannu'n llwyr. Alla i ddim gweld sut mae creu traffig ychwanegol yn gyson mewn unrhyw ffordd â'n hymrwymiad i Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddfau eraill.

- A. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod yr adeiladau yma yn fwy ynni-effeithlon ac rydyn ni'n aml yn ychwanegu paneli solar ac offer casglu dwr glaw er mwyn lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd. Oherwydd y cyllid, rhaid i ni lynu wrth fodel Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM). Rhaid i'r contractwyr rydyn ni'n eu defnyddio leihau eu hól troed carbon gymaint ag sy'n bosibl yn ystod y broses hefyd. Mae cau adeiladau aneffeithiol hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd hefyd. O ran y traffig a'r cynnig i adleoli'r chweched dosbarth, mae'n bosibl bydd yr allyriadau yr un peth oherwydd eu bod nhw'n aml yn mynd o un ysgol i'r llall yn ystod y dydd. Bydd hyn yn cael ei leihau oherwydd y byddan nhw'n aros ar yr un safle am y diwrnod cyfan.

C. Oes cynllun ar gyfer yr adeilad yma?

ET - Does dim cynllun hyd yma. Os bydd y cynnig yn llwyddo, bydd yr adeilad yn cael ei drosglwyddo i Adran Eiddo'r Cyngor a bydd yr adran yma yn rhoi cyngor i'r Aelodau Etholedig.

C. Os bydd ysgol newydd ac mae'r ysgol yma'n cau, beth fydd y drefn o ran y cyllid? Pe bai arian dros ben gyda ni a diffyg gyda nhw, sut byddai hwnna'n gweithio?

A. Rydyn ni'n gweithio gyda'r ysgolion sy'n cau ac ystyried y ffordd orau o'i reoli a byddai'r diffyg yn cael ei glirio a byddai cyllideb newydd yn cael ei chreu ar gyfer yr ysgol newydd. Mae'r holl ddata yn cael eu cysylltu â'r ysgol newydd, e.e. System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion ac ati Rydyn ni'n gweithio'n agos gydag ysgolion ar hyn.

C. Fydd unrhyw adeiladau newydd neu fydd yr adeiladau yn cael eu hailwampio?

A. Ar hyn o bryd, dydyn ni ddim yn gwybod beth fydd dyluniad yr adeiladau. Bydd hyn yn cael ei benderfynu gan y staff, disgyblion a llywodraethwyr ar y cyd.

Sylw gan aelod o staff neu lywodraethwr - Mae rhai o'r rhieni o'r farn nad oes digon o fanylion am hyn.

A. Fy gynhalion ni waith ailwampio ar brosiectau Ysgolion yr 21^{ain} blaenorol. Mae ansawdd a safon y dosbarthiadau sydd wedi'u hailwampio yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail a'r ysgol bob oed newydd yn Nhonyrefail yr un peth.

C. Pe bai capasiti dros ben, a fyddai modd i ysgolion eraill ymuno hefyd?

A. LH - Dydyn ni ddim yn bwriadu gwneud hyn ond pe bydden ni, nid nawr fyddai'r amser i ystyried hwnna a dydyn ni ddim. Mae angen i ni ystyried defnydd gan y gymuned a newid swyddogaethau rhai o'r dosbarthiadau er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r ysgol.

Sylw gan aelod o staff neu lywodraethwr - Er mor wych y gall yr ysgol fod, diogelwch y ffyrdd a diogelu yw'r materion rydyn ni eisiau'u codi a nodi.